**ADRODDIAD I'R CABINET**
12 HYDREF 2021

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid

**Pwnc:** Rhaglen Gyfalaf 2021/22 –
Adolygiad Diwedd Awst (sefyllfa 31 Awst 2021)

**Swyddog Cyswllt:** Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid

---

**Penderfyniad a geisir**

- Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst (sefyllfa 31 Awst 2021) o'r rhaglen gyfalaf.

- Cymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:
  - defnydd o amryw ffynonellau i ariannu gwir lithriadau gwerth cyfanswm o £25,837,000 o 2020/21,
  - cynnydd o £61,000 mewn defnydd o fenthyca,
  - cynnydd o £9,959,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau,
  - cynnydd o £69,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf,
  - cynnydd o £1,482,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw,
  - cynnydd o £21,000 mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf, a
  - cynnydd o £807,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.

---

## 1. Cyflwyniad / Crynodeb

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o'r drefn adolygu cyllideb 2021/22. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhan 3 a rhan 4 o'r adroddiad, gyda'r argymhellion yn rhan 6:

Rhan 3**:** Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £124.015m am y 3 blynedd 2021/22 – 2023/24.

Rhan 4: Ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £38.236m ers y gyllideb agoriadol, gyda £25.837m o'r cynnydd oherwydd llithriadau o 2020/21 (adroddwyd eisoes fel rhan o'r llithriadau a grantiau trafnidiaeth newydd yn adolygiad diwedd blwyddyn ar 18 Mai 2021).

Rhan 5: Manylder grantiau ychwanegol ers sefydlu'r gyllideb wreiddiol.

Y Cabinet sydd wedi'u hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3) a'i ariannu (rhan 4).

Mae gweddill yr adroddiad er gwybodaeth.

## 2. Prif Gasgliadau

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw :

- Fod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £71.6m yn 2021/22 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £26.1m (37%) ohono wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.

- Mae effaith argyfwng Covid19 yn parhau ar y rhaglen gyfalaf ac i'w weld yn y ffigyrau a adroddir yn Atodiad C, gyda dim ond 16% o'r gyllideb sydd wedi ei wario hyd at ddiwedd Awst eleni, o'i gymharu â 13% dros yr un cyfnod flwyddyn yn ôl a 19% ddwy flynedd yn ôl (2019/20, cyn amhariad Covid19).

- Mae £9.1m ychwanegol o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2021/22 i 2022/23 a 2023/24, ond ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

## 3. Rhaglen Gyfalaf 2021/22 i 2023/24

Gweler isod y rhaglen gyfalaf arfaethedig ddiwygiedig ar ddiwedd Awst 2021.

| ADRAN | ADOLYGIAD DIWEDD AWST | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS Y GYLLIDEB AGORIADOL | ADDASIAD LLITHRIAD | NEWIDIADAU ERAILL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | CYFANSWM | | | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Addysg | 8,374 | 12,871 | 4,309 | 25,554 | 1,628 | 1,470 | 158 |
| Amgylchedd | 14,771 | 971 | 121 | 15,863 | 14,433 | 9,250 | 5,183 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | - | - | - | - | (106) | (106) | - |
| Cyllid | 1,441 | 782 | 838 | 3,061 | (145) | (145) | - |
| Economi a Chymuned | 3,221 | 1,025 | 144 | 4,390 | 2,160 | 436 | 1,724 |
| Tai ac Eiddo | 17,681 | 12,957 | 6,929 | 37,567 | 10,690 | 9 | 10,681 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 5,292 | 1,450 | 625 | 7,367 | 1,399 | 1,372 | 27 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 1,982 | 250 | - | 2,232 | 1,732 | 768 | 964 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 10,374 | 4,728 | 3,133 | 18,235 | 4,687 | 3,435 | 1,252 |
| Ymgynghoriaeth | 7,088 | 287 | 43 | 7,418 | 430 | 453 | (23) |
| Corfforaethol | 1,328 | 500 | 500 | 2,328 | 1,328 | 8,895 | (7,567) |
| **CYFANSWM** | **71,552** | **35,821** | **16,642** | **124,015** | **38,236** | **25,837** | **12,399** |

## 4. Newidiadau i'r Ffynonellau Ariannu

Mae cynnydd o £12.399m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf dair blynedd ers sefyllfa'r gyllideb wreiddiol. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ar gyfer hyn:

| ARIANNU | ADOLYGIAD DIWEDD AWST | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS Y GYLLIDEB AGORIADOL | ADDASIAD LLITHRIAD | NEWIDIADAU ERAILL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | CYFANSWM | | | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 8,164 | 6,610 | 6,610 | 21,384 | - | - | - |
| Benthyca Arall | 6,977 | 2,975 | 3,289 | 13,241 | 902 | 841 | 61 |
| Grantiau a Chyfraniadau | 26,140 | 9,973 | 266 | 36,379 | 22,439 | 12,480 | 9,959 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 869 | 13 | 0 | 882 | 641 | 572 | 69 |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 2,288 | 356 | 0 | 2,644 | 1,034 | (448) | 1,482 |
| Cronfa Cyfalaf | 6,078 | 4,111 | 204 | 10,393 | 5,115 | 5,094 | 21 |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 21,036 | 11,783 | 6,273 | 39,092 | 8,105 | 7,298 | 807 |
| **CYFANSWM** | **71,552** | **35,821** | **16,642** | **124,015** | **38,236** | **25,837** | **12,399** |

## 5. Grantiau Ychwanegol

Ers sefydlu'r gyllideb wreiddiol, ddiwedd Mawrth, llwyddodd y Cyngor i ddenu'r grantiau canlynol ychwanegol o £10,060k. Mae nifer o addasiadau gan gynnwys lleihad o £54k ar gynlluniau oedd yn is na'r amcan gwreiddiol yn dod â chyfanswm y symudiad i £9,959k (gweler Atodiad A am fwy o fanylion) :

- £4,769k Grantiau o'r Gronfa Trafnidiaeth Leol gan Lywodraeth Cymru
- £1,088k Grant Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio (TRI) a'r Gronfa Ariannu Cyfatebol (TMF) i ariannu Cynllun Nyth ym Mangor
- £964k Grantiau Llywodraeth Cymru i'r maes Gofal Plant - Dechrau'n Deg a Gofal Plant
- £902k Grant Llywodraeth Cymru tuag at bwyntiau gwefru trydan a solar
- £579k Grantiau Economi Gylchol a Symbyliad gan Lywodraeth Cymru at amrywiol gynlluniau
- £575k Grantiau o'r Gronfa Teithio Llesol gan Lywodraeth Cymru
- £568k Grant Rhaglen Tai Arloesol tuag at safle Segontiwm, Caernarfon
- £206k Grant Galluogi, maes tai, gan Lywodraeth Cymru i hwyluso byw'n annibynnol
- £155k Grant Rhaglen Trawsffurfio Trefi gan Lywodraeth Cymru tuag at Hwb Menter Gymunedol Penygroes

- £146k Grant Llywodraeth Cymru tuag at welliant mynediad gwledig
- £108k Grant Croesawu y Cwsmer yn Saff

## 6. Argymhellion

**Gofynnir i'r Cabinet:**

- **dderbyn y rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2021/22 i 2023/24, a**
- **cymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol (rhan 4 uchod).**

## 7. Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf, a rhaid i'r Cabinet gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2021/22 – 2023/24.

## 8. Ystyriaethau Perthnasol

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

## 9. Camau Nesaf ac Amserlen

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

**Barn yr Aelod Lleol**
Dim yn  berthnasol.

---

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**:
- Atodiad A: Prif newidiadau fesul ffynhonnell ariannu
- Atodiad B: Symudiadau o 2021/22 i 2022/23
- Atodiad C: Gwariant 5 mis cyntaf 2021/22

----------------------------

**ATODIAD A**

**Manylion y Prif Newididau**

Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynonellau ariannu ers yr adolygiad diwethaf :

| | **2021/22**<br>**£'000** | **2022/23-2023/24**<br>**£'000** |
|---|---|---|
| **Grantiau a Chyfraniadau** | | |
| • Grant Ysgolion Ganrif 21 – ailbroffilio ac addasu Cynlluniau Ysgolion Treferthyr ac Ein Harglwyddes *(Adran Addysg).* | (4,767) | (4,713) |
| • Grant Croesawu y Cwsmer yn Saff *(Adran Economi a Chymuned).* | 108 | |
| • Grant Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio (TRI) a'r Gronfa Ariannu Cyfatebol (TMF) i ariannu Cynllun Nyth, Bangor *(Adran Economi a Chymuned).* | 388 | 700 |
| • Grantiau Economi Gylchol a Symbyliad Llywodraeth Cymru tuag at amrywiol gynlluniau *(Adran Economi a Chymuned ac Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol).* | 579 | |
| • Grantiau Llywodraeth Cymru i'r maes Gofal Plant – Dechrau'n Deg a Gofal Plant - ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau *(Adran Plant a Theuluoedd).* | 964 | |
| • Grantiau o'r Gronfa Trafnidiaeth Lleol (LTF) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau *(Adran Amgylchedd).* | 4,769 | |
| • Grantiau o'r Gronfa Teithio Llesol (ATF) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau *(Adran Amgylchedd).* | 575 | |
| • Grant Llywodraeth Cymru tuag at welliant mynediad gwledig *(Adran Amgylchedd).* | 146 | |
| • Grant Llywodraeth Cymru tuag at bwyntiau gwefru trydan a solar *(Adran Amgylchedd).* | 902 | |
| • Grant Galluogi, maes tai, gan Lywodraeth Cymru i hwyluso byw'n annibynnol *(Adran Tai ac Eiddo).* | 206 | |
| • Grant Rhaglen Trawsffurfio Trefi gan Lywodraeth Cymru tuag at Hwb Menter Gymunedol Penygroes *(Adran Tai ac Eiddo).* | 155 | |

| | | |
|---|---|---|
| • Grant Rhaglen Tai Arloesol tuag at safle Segontiwm, Caernarfon *(Adran Tai ac Eiddo).* | 568 | |
| **Benthyciadau Arall** | | |
| • Cerbydau Priffyrdd a Bwrdeistrefol *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol).* | 61 | |
| **Derbyniadau Cyfalaf** | | |
| • Amrywiol gynlluniau gan gynnwys ariannu cyfatebol Canolfan Ailgylchu Llandygai *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol).* | 70 | |
| **Refeniw Adrannol** | | |
| • Cyfraniadau Ysgolion tuag at amrywiol gynlluniau gan gynnwys cerbydau *(Adran Addysg).* | 193 | |
| • Hwb Rhannu Bwyd Cymunedol *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol).* | 100 | |
| • Cyfraniadau cyfatebol/ychwanegol tuag at amrywiol gynlluniau *(Adran Amgylchedd).* | 63 | |
| • Trosglwyddo elfen o'r gyllideb refeniw i ariannu cynlluniau Cynnal a Chadw sydd bellach yn gyfalaf o ran natur *(Adran Tai ac Eiddo).* | 1,067 | |
| **Cronfa Cyfalaf** | | |
| • Cynllun Ysgolion Ganrif 21 - ailbroffilio Cynllun Ysgol Treferthyr *(Adran Addysg).* | (1,146) | 1,146 |
| **Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill** | | |
| • Cynllun Ysgolion Ganrif 21 - ailbroffilio Cynllun Ysgol Treferthyr *(Adran Addysg).* | (218) | 218 |
| • Adnewyddu cerbydau ac offer - Unedau Priffyrdd a Bwrdeistrefol *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol).* | 828 | |

---------------------------

**ATODIAD B**

**Manylion Ail-broffilio**

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi eu hail-broffilio ers y gyllideb wreiddiol:

| | **2021/22 £'000** | **2022/23 £'000** |
|---|---|---|
| Cynlluniau Ysgolion (Ganrif 21 ac Eraill) *(Adran Addysg)* | (3,331) | 3,331 |
| Cynlluniau Trafnidiaeth *(Adran Amgylchedd)* | (176) | 176 |
| Gwelliannau Trefol *(Adran Amgylchedd)* | (20) | 20 |
| Ail-wynebu Meysydd Parcio *(Adran Amgylchedd)* | (219) | 219 |
| Pwyntiau Gwefru Cerbydau *(Adran Amgylchedd)* | (356) | 356 |
| Cynlluniau Addasiadau Swyddfeydd *(Adran Tai ac Eiddo)* | (123) | 123 |
| Cynlluniau Cynnal a Chadw wedi eu cyfalafu *(Adran Tai ac Eiddo)* | (226) | 226 |
| Cynlluniau Rheoli Carbon y Cyngor *(Adran Tai ac Eiddo)* | (1,351) | 1,351 |
| Cynllun Gwaredu Asbestos *(Adran Tai ac Eiddo)* | (400) | 400 |
| Cynlluniau Ysgogi'r Economi ac Unedau Diwydiannol *(Adran Tai ac Eiddo)* | (2,925) | 2,925 |
| Uwchraddio'r System Ariannol *(Adran Cyllid)* | (14) | 14 |

**Noder:**
Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.
Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau presennol heb eu gwella.

**ATODIAD C**

**Gwariant Cyfalaf 5 Mis Cyntaf 2021/22**

| **CRYNODEB** | **RHAGLEN GYFALAF BLWYDDYN LAWN (adolygwyd Awst) 2021/22 £'000** | **GWIR WARIANT 5 MIS HYD AT 31/08/2021 £'000** |
|---|---|---|
| Addysg | 8,374 | 1,360 |
| Amgylchedd | 14,771 | 2,918 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | - | - |
| Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) | 1,441 | 249 |
| Economi a Chymuned | 3,221 | 1,017 |
| Tai ac Eiddo | 17,681 | 2,695 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 5,292 | 420 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 1,982 | 182 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 10,374 | 2,411 |
| Ymgynghoriaeth | 7,088 | - |
| Corfforaethol | 1,328 | - |
| **CYFANSWM** | **71,552** | **11,252** |

**Noder:**
Mae’r gyfran sydd wedi’i wario eleni (16%) yn uwch na’r sefyllfa adeg yma'r llynedd (gwariant 5 mis 2020/21 yn 13%), ond yn is na dwy flynedd yn ôl (19% yn 2019/20, cyn amhariad Covid19).